

Ymateb i Hunan-niwed neu Hunanladdiad: Rheoli Risg

(Mewn achosion brys meddygol dilynwch eich gweithdrefnau meddygol a diogelu eich hun; os nad yw'n achos brys meddygol neu os ydych yn gwneud gwaith dilynol ar ôl achos brys meddygol dilynwch y llwybr isod)

YSGOL Aelod Staff

Aelod staff yn dod yn ymwybodol o broblem hunan-niwed.

Ceisiwch beidio â chynhyrfu na beirniadu. Ceisiwch fod yn empathig a thosturiol. Esboniwch y byddwch yn cael gair gyda Swyddog Cyswllt Hunan-niwed yr Ysgol a dywedwch beth fydd yn digwydd nesaf.

Cysylltwch â Swyddog Cyswllt Hunan-niwed yr ysgol, dywedwch wrtho beth sydd wedi digwydd, gadewch iddo reoli'r sefyllfa o hyn ymlaen. Ysgrifennwch nodiadau a'u ffeilio yn unol â pholisi'r ysgol. Y Swyddog Cyswllt Hunan-niwed fydd yn gyfrifol o'r pwynt hwn.

YSGOL Swyddog Cyswllt Hunan-niwed (SHLO)

Swyddog Cyswllt Hunan-niwed yr Ysgol yn dod yn ymwybodol o unigolyn ifanc sydd wedi niweidio ei hun

Cyfarfod yr unigolyn ifanc. Cwblhau'r pedwar cwestiwn cyntaf ar y Rhestr wirio ar gyfer Sgyrsiau Cychwynnol gyda Phobl Ifanc am Hunan-niwed – dilynwch y canllawiau sydd ynghlwm â'r Rhestr wirio a defnyddiwch unrhyw offer perthnasol i gefnogi'r sgwrs hwn.

Anfon y Rhestr wirio â'r 4 adran wedi'u cwblhau i CAMHS gan ddefnyddio'r system electronig diogel (byddwn yn esbonio sut i wneud hyn ar ôl i chi gwblhau'r hyfforddiant)

Ffoniwch CAMHS i dynnu eu sylw at yr achos a gwiriwch eu bod wedi derbyn y Rhestr wirio. O hyn ymlaen chi sy'n gyfrifol am gydweithio gyda CAMHS.

CAMHS Ymarferydd Dyletswydd Arbenigol CAMHS

Ymarferydd CAMHS yn derbyn y Rhestr wirio wedi'i chwblhau, caiff unrhyw wybodaeth ychwanegol ei chasglu gan CAMHS.

O'r pwynt hwn rydych yn gyfrifol am gydweithio gyda'r ysgol. Siaradwch gyda Swyddog Cyswllt Hunan-niwed yr Ysgol. Trafodwch gynnwys y Rhestr wirio a gwblhawyd ac ystyriwch y risg ynghyd â phwy y dylid rhoi gwybod iddynt ar y pwynt hwn.

Rhowch gyngor ar reoli risg a chytunwch sut i reoli'r sefyllfa. Rhowch arweiniad i'r Swyddog Cyswllt Hunan-niwed wrth gwblhau Cynllun Diogelwch gyda'r unigolyn ifanc.

Ysgrifennwch nodiadau ar sail y cyd-drafodaeth a'r camau gweithredu a gytunwyd. Anfonwch y Rhestr wirio a'r nodiadau yn ôl i'r ysgol drwy'r system ebost electronig diogel.

YSGOL Swyddog Cyswllt Hunan-niwed (SHLO)

Swyddog Cyswllt Hunan-niwed yr Ysgol yn cwblhau'r Cynllun Diogelwch gyda'r unigolyn ifanc, ar ôl siarad gyda CAMHS.

Cyfarfod yr unigolyn ifanc i ddatblygu a chytuno ar Gynllun Diogelwch. Cadw copi ar gyfer ffeil yr ysgol a rhoi'r gwreiddiol i'r unigolyn ifanc.

YSGOL SAP Arweiniol/ Aelod o'r Uwch Dim Arwain.

Monitro ac adolygu cynlluniau disgyblion unigol.

Allwedd

Cam yn y llwybr

Camau gweithredu

Pwy sy'n gyfrifol?